**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/VG/0675/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

22 Tachwedd 2018

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod wedi gosod dau Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â:

- **Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, a**
- **Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A).

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi hefyd nad wyf, yn yr achos hwn yn bwriadu gosod cynnig i gynnal dadl arno ynglŷn â'r OS. Gwneuthum y penderfyniad hwnnw ar y sail bod yr OS wedi'i gyfyngu i wneud cywiriadau i'r diffygion yn y gyfraith a fydd yn codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Mae darpariaethau'r OS yn rhai technegol, ac nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw Aelod osod cynnig i gynnal dadl ar yr OS hwn. O ystyried cymaint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, nid wyf yn credu y byddai cynnal dadl ar yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr yn y Cyfarfod Llawn ac ni fyddaf i fy hun yn mynd ati i ysgogi dadl o'r fath.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.